Cofnodion Cyfarfod Arferol o **GYNGOR TREF RHUTHUN** gynhaliwyd yn Swyddfeydd y Cyngor, Ffordd Wynnstay, Rhuthun ar nos Lun, 26 Ionawr 2015 am 7:00 p.m.

PRESENNOL: Cyng. Stephen Beach (**Maer - Cadeirydd**)
Cyngr. James Bryan, Bob Costain, June Derry, Sioned Foulkes, Ken Hawkins, Menna Jones, Simeon Jones, Robert Owen-Ellis, Anne Roberts, Geraint Woolford ac Emrys Wynne; hefyd Bobby Feeley a Huw Hilditch-Roberts, Cynghorwyr Sir.

157. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth Gyngr. Elisabeth Culshaw a Rosie Hughes-Moseley

158. DATGANIADAU O DDIDDORDEB

Datganodd Cyng. Ken Hawkins, fel Cadeirydd y Pwyllgor Rheolaeth ac Ysgrifennydd y Cwmni, ddiddordeb personol yn y canlynol a gadawodd y siambr yn ystod y drafodaeth a'r penderfyniad ddilynodd.
Cof. Rhif 169 – CAIS AM GYMORTH ARIANNOL – CANOLFAN AWELON

159. ADRODDIAD Y MAER

Dywedodd y Maer ei fod wedi mynychu'r canlynol ers y cyfarfod diwethaf:

16 Rhag	Ysbyty Rhuthun
17 Rhag	Mynychu gwasanaeth Angladd Denise Collister
18 Rhag	Siopa Nadolig
19 Rhag	Cyngerdd yn Nantclwyd y Dre
21 Rhag	Carolau Nadolig yn Eglwys Sant Pedr
22 Rhag	Ymweld â Chartrefi Gofal Preswyl yn Rhuthun
29 Rhag	Elusennau Tref Rhuthun
8 Ion	Grŵp Llywio Cydlynydd y Dref
9 Ion	Dathlu penblwydd Sally Roberts yn 105 yn Awelon,
13 Ion	Hubbub, Llys Erw
16 Ion	Canu a The'r Prynhawn Olwyn Fewnol yn Llys Erw
17 Ion	Agor siop Analysa Cake and Coffee Shop, Wernfechan
22 Ion	Pawb a'i Farn yn Llysfasi.

160. ADRODDIADAU AELODAU

Cyng. James Bryan	Cyfarfod Blynyddol GŴyl Rhuthun
Cyng. Menna Jones	Dinesydd Da, Llywodraethwyr Ysgol Borthyn, Banc Bwyd.
Cyng. Robert Owen-Ellis	Banc Bwyd x 5, Corff Llywodraethol Ysgol Pen Barras, Cyfarfod Cydlynydd y Dref, cyfarfod gyda Jamie Groves
Cyng. Anne Roberts	Mynychu gwasanaeth Angladd Denise Collister, Siopa Nadolig, Ymweld â Chartrefi Gofal Preswyl yn Rhuthun, Dathlu penblwydd Sally Roberts yn 105 yn Awelon, Fforwm Dros 50, Cyfweliad gyda S4C parthed Logo Rhuthun, Pwyllgor Banc Bwyd, Pawb a'i Farn yn Llysfasi.
Cyng. Geraint Woolford	Tîm y Dref

161. COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF

***PENDERFYNWYD**: derbyn a mabwysiadu fel cywir cofnodion y Cyfarfod Arferol a gynhaliwyd ar 15 Rhagfyr 2014.*

162. MATERION YN CODI

Cof. Rhif 146 - TIM Y DREF - dywedodd aelod mai'r Ysgrifennydd yn awr yw Dave Snape a'r Trysorydd yw Mike Baines.

163. PWYLLGOR AMWYNDERAU

Cyflwynodd Cadeirydd y Pwyllgor cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Ionawr 2015.
***PENDERFYNWYD**: derbyn y cofnodion.*

164. PWYLLGOR CYNLLUNIO A DATBLYGU

Cyflwynodd Cadeirydd y Pwyllgor cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Ionawr 2015.
***PENDERFYNWYD**: derbyn y cofnodion.*

165. IS-BWYLLGOR ARCHWILIO ARIANNOL

***PENDERFYNWYD**: derbyn a mabwysiadu fel cywir cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Ionawr 2015.*

166. CYDLYNYDD DREF

Cafwyd trafodaeth hir ar y mater yma gan gynnwys y Cytundeb sydd yn dod i ben ar 31 Ionawr 2015. Derbyniwyd diweddariad ar y brandio a'r wefan gan Cyng. Robert Owen-Ellis. Mae rhagor o arian i ariannu'r datblygiad nesaf i'w ddefnyddio ar gyfer hostio gwefan arbenigol. Cynigir bod y Cyngor Tref yn dod yn berchen y wefan a gofynnodd am gadarnhad yr aelodau ar hyn. Llythyr o ddiolch i'w anfon i'r Cydlynydd yn diolch am ei gwaith caled yn ystod tymor y Cytundeb. Cynigir peidio ag ymestyn y Cytundeb tu hwnt i 31 Ionawr
***PENDERFYNWYD**: peidio ymestyn y Cytundeb tu hwnt 31 Ionawr ac i gadarnhau'r Cyngor Tref fel perchennog y wefan newydd.*

167. YMDDISWYDDIAD CYNGHORYDD TREF

Adroddodd y Maer i e-bost gael ei dderbyn oddi wrth Cyng. Katy Morgan Williams yn ymddiswyddo fel Cynghorydd Tref am resymau personol.
***PENDERFYNWYD**: derbyn yr ymddiswyddiad a bod trefniadau yn cael eu gwneud ar gyfer apwyntio Cynghorydd Tref newydd. Y Rhybudd Cyfreithiol i ymddangos yn nrws Neuadd y Dref am gyfnod o 14 niwrnod, yn dilyn hyn bydd y Cyngor Tref yn llenwi'r sedd wag drwy gyfethol, oni bai y gelwir Etholiad yn y cyfamser.*

168. GWOBRAU DINESYDD DA

Derbyniodd yr aelodau ddiweddariad. Bydd hysbyseb yn ymddangos yn y Free Press i hybu'r Gwobrau gydag enwebiadau i'w cyflwyno erbyn 31ain Mawrth 2015.

169. CAIS AM GYMORTH ARIANNOL CANOLFAN AWELON

Cyflwynodd Clerc y Dref lythyr gan Ysgrifennydd y Mudiad uchod yn gofyn am y Cyfraniad Blynyddol o £3,000.00 tuag at gostau rhedeg Canolfan Awelon - mae'r swm yma yn y gyllideb.
***PENDERFYNWYD**: cadarnhau talu'r Cyfraniad Blynyddol o £3,000.00 i'r Mudiad yma.*

170. CYFARFOD BLYNYDDOL

Gofynnwyd i'r aelodau ystyried newid dyddiad Cyfarfod Blynyddol eleni i Nos Lun, 18fed Mai i Nos Lun, **11eg Mai** – y Cyfarfodydd Pwyllgorau i aros ar Nos Fawrth, 5ed Mai a'r Cyfarfod Arferol y Cyngor Tref ar nos Fawrth, 26ain Mai.
***PENDERFYNWYD**: cadarnhau newid dyddiad y Cyfarfod Blynyddol ym mis Mai.*

171. PLWYFI TREF RHUTHUN

Derbyniodd yr aelodau wahoddiad gan Y Parch Stuart Evans i Wasanaeth i groesawu Pennaeth newydd Ysgol Borthyn, Mrs Teleri Jones, i'w gynnal yn Eglwys Mwrog, Llanfwrog ar ddydd Su, 1af Chwefror am 11:00 a.m.

172. CANOLFAN GREFFT RHUTHUN

Derbyniodd yr aelodau fanylion o gyfarfod cynhaliwyd bore heddiw, Llun, 26ain Ionawr 2015 gyda Jamie Groves, Pennaeth Cyfathrebu, Marchnata a Hamdden, Cyngor Sir Ddinbych, parthed posib lleihad neu dynnu ymaith cronfa'r Ganolfan Grefft. Mae'n teimlo byddai gwell defnydd o'r arian i hyrwyddo dim yn unig y Ganolfan Grefft ond hefyd y cyfleusterau hamdden y dref gan gynnwys Canolfan Hamdden

Brynhyfryd a Chae Ddôl.
Penderfynwyd: cynnwys y swm o £30,000 yn y praesept eleni o dan y pennawd Canolfan Grefft / Cyfleusterau Hamdden

173. YSWIRIANT - ZURICH MUNICIPAL

Gofynnwyd i'r aelodau drafod newidiadau arfaethedig i'r polisi presennol a thalu premiwm adnewyddu'r flwyddyn nesaf yn y swm o £4,164.99. Newidiadau arfaethedig fel a ganlyn:
Tynnu ymaith £77,028.77 sicrwydd o'r Parc Sgrialu ond Atebolrwydd Cyhoeddus i aros, tynnu ymaith £6,050 sicrwydd 22 Placiau'r Dref a chodi sicrwydd Creiriau'r Dref o £51,000 i £75,000.
PENDERFYNWYD*: cadarnhau'r newidiadau a thalu premiwm yswiriant eleni o dan gytundeb 5-mlynedd.*

174. CYMDEITHAS DDINESIG RHUTHUN A'R CYLCH - MUDIAD CITTASLOW

Cyflwynodd Clerc y Dref e-bost gan Ysgrifennydd y Mudiad uchod yn awgrymu cyfarfod ar y cyd i drafod aelodaeth o Fudiad Cittaslow.
PENDERFYNWYD*: bod cyfarfod ar y cyd yn cael ei drefnu mewn cydweithrediad a'r Gymdeithas Ddinesig.*

175. AMCANGYFRIFON ARIANNOL 2015 / 16

Cyflwynodd Clerc y Dref, fel Swyddog Ariannol Cyfrifol, ei amcangyfrifon drafft ar gyfer y Flwyddyn Ariannol yn diweddu 31Mawrth 2016. 'Roedd yn cynnig gwariant o £124,925 gydag incwm o £124,300 Praesept a £625 Llogau Buddsoddiad / Banc. Byddai hyn yn rhoddi praesept Band D cyfatebol o £52.38 i'w gymharu â £54.92 y llynedd. Ar ôl trafodaeth ar bob eitem o wariant
PENDERFYNWYD*: bod y Cyngor yn gwneud praesept o £124,300.00 ar Gyngor Sir Ddinbych, sef treth Band D cyfatebol o £52.38 am y flwyddyn ariannol yn diweddu 31 Mawrth 2016.*

176. DATGANIAD ARIANNOL

Cyflwynodd Clerc y Dref, fel Swyddog Ariannol Cyfrifol, ei Ddatganiad Ariannol am y cyfnod yn diweddu 31ain Rhagfyr 2014
PENDERFYNWYD*: derbyn a mabwysiadu'r Datganiad Ariannol.*

177. CYFRIFON I'W TALU

D.U.	B.T.	Teliffon	*	121.18
A.B.	Canda Copying Ltd	Rhentu Ffotogopiwr	*	129.14
679	Sandra Williams	Cyfieithu	*	90.00
680	Cyllid y Wlad	Treth ac Yswiriant Gwladol		163.20
681	Cymdeithas Cynghorau Lleol Gogledd a Chanolbarth Cymru	Cinio – Cyfarfod 30 Ion yng Nghei Conna		30.00
682	Canda Copying Ltd	Copïau ychwanegol - du a gwyn	*	55.48
683	Canda Copying Ltd	Copïau ychwanegol - lliw	*	46.38
684	I.T. Williams Company Ltd	Cydlynydd y Dref - cludo rhwystrau.	*	360.00
685	Eglwys Sant Pedr	Llifoleuadau 2014		807.43
686	Gwasanaeth Coed Cambrian	Coed Nadolig 2014	*	1,719.60
687	Zurich Municipal	Adnewyddu yswiriant		4,164.99
688	Canolfan Awelon	Cyfraniad Blynyddol		3,000.00
689	Ground Control	Torri Glaswellt – Hydref 2014	*	448.62

(Mae'r eitemau a nodir gyda * yn cynnwys T.A.W. y gellir ei adennill o £385.10)

178. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

PENDERFYNWYD*: cadarnhau dyddiad cyfarfod nesaf o'r Cyngor Tref fel Nos Lun, 16 Chwefror 2015.*